

Y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Adroddiad Blynyddol

2022 – 2023

Y Broses Graffu yn Sir Gaerfyrddin

Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi

sirgar.llyw.cymru

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council



Cynnwys

1. Cyflwyniad	4
2. Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2022/23.....	4
2.1 Nifer y Cyfarfodydd	4
2.2 Y Blaengynlluniau Gwaith	4
2.3 Monitro Perfformiad / Materion Strategol	6
2.4 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf	7
2.5 Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Ranbarthol	8
2.6 Cynllun Rheoli Cyfiawnder Ieuenctid 2022/23	8
2.7 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2021/22	8
2.8 Strategaeth Dementia Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru	8
2.9 Diweddariad Strategaeth Gofal Cartref.....	8
2.10 Diweddariad ynghylch yr Adolygiad Gorchwyl Gorffen ar Unigrwydd yn Sir Gaerfyrddin.....	9
2.11 Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Oedolion a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)	9
2.12 Adroddiadau Ychwanegol a Gwybodaeth y Gofynnwyd Amdani	9
3. Gweithgarwch Craffu Arall	9
3.1 Gorchwyl a Gorffen	10
3.2 Sesiynau Datblygu, Hyfforddiant a Briffio	10
3.2 Ymweliadau Safle	11
4. Heriau	11
5. Gwaith yn y Dyfodol.....	11
6. Cymorth i'r Swyddogaeth Graffu.....	12
7. Presenoldeb	13

Rhagair y Cadeirydd



Croeso i Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022/23. Fel Cadeirydd, rwy'n falch o gyflwyno'r adroddiad hwn i chi yn manylu ar y gwaith y mae'r Pwyllgor wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn.

Yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022, roedd pob un, ar wahân i ddau Aelod, yn newydd i'r Pwyllgor a minnau'n un ohonynt. Roedd hyn ynddo'i hun yn achosi heriau, ac felly cytunwyd i drefnu ymweliadau â gwahanol ganolfannau er mwyn i ni fel Aelodau gael gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae pob adran yn gyfrifol amdano. Rhaglen barhaus yw hon nes ein bod wedi rhoi sylw i bob rhan o Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant.

Unwaith eto, yn ystod y flwyddyn hon, roeddem yn ddarostyngedig i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2020 a ddaeth i rym ar 22 Ebrill 2020. Er bod yr Aelodau a ailetholwyd yn gyfarwydd â gweithio o bell, mae hyn wedi bod yn faes dysgu ychwanegol i Aelodau newydd. Yn sgil hyn i gyd a'r rhaglen hyfforddiant ragorol yn syth ar ôl yr etholiadau ym mis Mai, ni chynhaliwyd ein cyfarfod Craffu cyntaf tan fis Hydref 2022. Mae gweithio o bell yn opsiwn gwell i rai Cynghorwyr na fyddent fel arall yn gallu bod yn rhan o gyfarfod Craffu. Mae pob opsiwn yn dda ond er mwyn dod i adnabod ein gilydd a swyddogion, rwy'n credu y byddai'n ddefnyddiol cwrdd wyneb yn wyneb o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Adran Cymunedau yn parhau i weithio'n dda mewn perthynas â sawl agwedd a hefyd ar y cyd â llawer o wasanaethau gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda, sy'n hynod fuddiol i ddefnyddwyr gwasanaeth. Credaf mai dyma'r ffordd ymlaen gan fod cymaint o integreiddio meysydd a fydd yn elwa ar gydweithio. Sir Gaerfyrddin sydd ar y blaen yn hyn o beth a gobeithio y bydd eraill yn gwneud yr un peth. Bu heriau ers Covid yn sgil prinder gweithwyr Gofal Cartref ac mae hyn yn cael sylw drwy ymgyrch recriwtio cadarn a fydd, gobeithio, yn helpu i sicrhau bod gan y gwasanaethau hanfodol hyn gyflenwad llawn o staff heb orfod dibynnu ar staff asiantaeth. Mae Llesiant Delta hefyd yn gweithio'n galed i gefnogi pobl drwy'r rhaglen Delta Connect a'i wasanaethau ymateb. Mae'r Gwasanaethau Plant hefyd yn parhau i ymateb i'r argyfwng presennol ynghylch capasiti lleoliadau, ynghyd â'r cynnydd yn y galw am anghenion darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc ar ôl y pandemig.

Rydym ni fel Pwyllgor Craffu wedi ymrwymo i ymgymryd â phrosiect Gorchwyl a Gorffen i edrych ar Gychwyn Egnïol ar gyfer plant 0 - 11 oed a fydd yn cael ei gyflwyno yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf. Rwy'n edrych ymlaen at raglen lawn ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ac at gael gwell gwybodaeth am y gwasanaethau a'r sgiliau sy'n rhan o'r portffolio hanfodol hwn.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'm cyd-Aelodau am eu cyfranogiad, i'r holl swyddogion a'r staff am eu gofal a'u huchelgais ar gyfer poblogaeth sy'n derbyn gofal da yn y Sir hon. Hefyd hoffwn ddiolch i Emma, ein swyddog cymorth Gwasanaethau Democrataidd, am ei gwybodaeth a'i harweiniad sydd wedi bod yn amhrisiadwy yn ein blwyddyn gyntaf.

Y Cynghorydd Hazel Evans

Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

1. Cyflwyniad

Mae'r swyddogaeth graffu yn elfen allweddol o drefniadau llywodraethu y Cyngor Sir a'i broses o wneud penderfyniadau. Er nad yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau, mae Craffu yn fwyaf effeithiol pan fydd yn manteisio ar y potensial i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan y Cyngor a chyrrff partner sy'n effeithio ar y Sir, a llywio'r penderfyniadau hynny.

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl Bwyllgorau Craffu "*baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol.*"

Prif nod yr adroddiad yw pwysleisio'r gwaith sydd wedi'i wneud gan y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod 2022/23. Y bwriad yw rhoi cyfle i aelodau ystyried llwyddiannau'r flwyddyn a nodi beth a weithiodd yn dda ac ymhle y gellid gwneud gwelliannau. Mae'r dadansoddiad hwn yn hanfodol i ddatblygu'r broses graffu. Yn ogystal, efallai y bydd yr adroddiad hwn yn helpu i hwyluso trafodaethau ar eitemau y gellid eu nodi i'w cynnwys mewn cynlluniau gwaith yn y dyfodol.

Cadeirydd y Pwyllgor yw'r Cyngorydd Hazel Evans ac mae'n cynnwys 14 o Aelodau Etholedig. Darperir cymorth gan yr Uned Gwasanaethau Democraidd a Swyddogion eraill y Cyngor pan fo angen.

2. Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2022/23

2.1 Nifer y Cyfarfodydd

Cynhaliodd y Pwyllgor Craffu 4 cyfarfod yn ogystal â chyfarfod ar y cyd ynghylch Camddefnyddio Sylweddau â'r Pwyllgor Craffu - Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd yn ystod blwyddyn y cyngor 2022/23. Cafodd dau gyfarfod eu canslo yn ystod y flwyddyn.

2.2 Y Blaengynlluniau Gwaith

Mae'r broses graffu yn chwarae rhan allweddol o ran hyrwyddo atebolrwydd ym mhroses gwneud penderfyniadau yr Awdurdod Lleol. Hefyd mae'r broses yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac annog cydweithio ag asiantaethau allanol.

Er mwyn i'r Pwyllgorau Craffu gymryd mwy o berchnogaeth o'u Blaengynlluniau Gwaith eu hunain, cyflwynwyd dull craffu cyn gwneud penderfyniadau ym mis Medi 2022 sy'n caniatáu i Bwyllgorau Craffu benderfynu pa adroddiadau o Flaengynllun Gwaith y Cabinet y maent am eu gweld yn dod ger eu bron. Yn ôl y drefn arferol, mae Pwyllgorau hefyd yn gallu nodi eu pynciau eu hunain ac mae'r Cabinet yn dal i allu gwahodd Pwyllgor Craffu i graffu ar benderfyniad oedd ar y gweill.

Yn sgil ffurfio cysyniad y Blaengynllun Gwaith, ei ddatblygu a'r broses ar gyfer cytuno arno, mae modd i bob Pwyllgor Craffu benderfynu ar ei agendâu ei hun. Mae manteision y dull hwn o weithio wedi arwain at wella'r drafodaeth a'r cyfraniadau yn ystod cyfarfodydd y pwyllgorau craffu.

Hefyd ymgynghorodd y Pwyllgor â'r swyddogion i nodi eitemau a fydd yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Gofynnwyd hefyd am adroddiadau ychwanegol gan yr aelodau yn ystod y flwyddyn a newidiwyd y Blaengynllun Gwaith yn unol â hynny. At ei gilydd, roedd agendâu'r cyfarfodydd yn gyson â'r rheiny a amlinellwyd yn y Blaengynllun Gwaith.

Yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022, diweddarwyd meysydd gorchwyl y Pwyllgorau Craffu gan y Cyngor a daeth pob Pwyllgor Craffu yn gyfrifol am graffu ar Bortffolios Penodol y Cabinet a'u gwasanaethau perthnasol a chael trosolwg ohonynt.

Mae'r Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol am graffu ar bortffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cabinet a'r meysydd gwasanaeth perthnasol fel y nodir isod:

Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion	Heneiddio'n dda
Gofal Preswyl gan gynnwys cartrefi preswyl mewnol	Asesu a Rheoli Gofal
Gofal Cartref gan gynnwys gofal cartref mewnol a gwasanaethau ailalluogi	Pobl Hŷn ac eiddilwch
Anableddau Dysgu	Gwasanaethau Integredig gan gynnwys cyswllt â'r GIG a chydweithio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol
Iechyd Meddwl	Anabledd Corfforol a Nam ar y Synhwyrau
Taliadau Uniongyrchol	Aelod o'r Bwrdd Plant a Phobl Ifanc
Gofalwyr	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
Gofal Dementia	Arweinydd Rhianta Corfforaethol
Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant	Gwasanaethau Cymorth Cymunedol
Diogelu Oedolion	Gwasanaethau Maethu
Gwasanaethau Mabwysiadu	Seibiant
Arolygiaeth Gofal Cymru	Strategaeth Atal
Comisiynydd Pobl Hŷn	Cefnogi Teuluoedd
Gwasanaethau a Gomisiynir	Diogelu Plant
Y Blynyddoedd Cynnar, Cymorth i Deuluoedd ac Atal	Anghenion Cymhleth a Phontio
Rhianta a Llesiant Plant	Cydlynnydd Amddiffyn Plant
Diogelu (Gorllewin y Sir) a Mabwysiadu	Diogelu (Dwyrain y Sir) a Gwella Gwasanaethau

Er mwyn ategu'r gwaith a wnaed yn ystod cyfarfodydd ffurfiol, mae'r Pwyllgor hefyd yn cyflawni swyddogaethau craffu eraill megis Gorchwyl a Gorffen, ymweliadau â sefydliadau a ddaw o fewn ei faes gorchwyl ynghyd â sesiynau datblygu i aelodau.

Cynhaliodd y Pwyllgor gyfanswm o 3 chyfarfod Blaen-gynllunio.

2.3 Monitro Perfformiad / Materion Strategol

Adroddiadau Monitro Perfformiad - Un o rolau pennaf y Pwyllgorau Craffu yw monitro perfformiad y gwasanaethau a'r swyddogaethau a ddaw o fewn ei faes gorchwyl. Gwnânt y gwaith hwn yn bennaf drwy ystyried adroddiadau monitro perfformiad ac adroddiadau monitro cynlluniau gweithredu amrywiol. Mae'r adroddiadau monitro perfformiad yn rhoi darlun cytbwys o'r perfformiad ar draws y meysydd gwasanaeth perthnasol. Cafodd y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer Amcanion Llesiant y Cyngor yn y cyfarfod ym mis Ionawr a mis Mawrth 2023. Roedd yr adroddiadau'n canolbwyntio ar ddangosyddion tanberfformio yn bennaf.

Cynlluniau Cyflawni Is-adrannol Drafft 2023-24 ar gyfer: Gwasanaethau Integredig, Comisiynu a Chymorth Busnes a Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion - Fel rhan o'i rôl o fonitro perfformiad, cafodd y Pwyllgor wybodaeth berthnasol am strategaethau a chynlluniau allweddol y Cyngor. Ym mis Mawrth 2023 ystyriodd y Pwyllgor y Cynlluniau Cyflawni Is-adrannol Drafft. Mae'r cynlluniau hyn yn pennu'r camau a'r mesurau strategol y byddai'r gwasanaethau o fewn yr Is-adran hon yn eu gweithredu er mwyn i'r Cyngor wneud cynnydd mewn perthynas â'i Amcanion Llesiant, ei flaenoriaethau thematig a blaenoriaethau'r gwasanaeth.

Nodwyd bod camau a mesurau ar gyfer cyflawni Ymrwymadau Datganiad Gweledigaeth y Cabinet hefyd wedi'u cynnwys.

Canlyniadau

- [Bod llythyr yn cael ei anfon i'r Bwrdd Iechyd yn mynegi pryderon ynghylch annhegwch y trefniadau cyllido presennol o ran Adran 117.](#)

Cynllun Cyflawni Gwasanaeth Drafft y Gwasanaethau Plant 2023-24 - Fel rhan o'i rôl o fonitro perfformiad, cafodd y Pwyllgor wybodaeth berthnasol am strategaethau a chynlluniau allweddol y Cyngor. Ym mis Mawrth 2023 rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Cynllun Cyflawni Gwasanaeth Drafft a oedd yn pennu'r camau a'r mesurau strategol y byddai'r gwasanaethau o fewn yr Is-adran yn eu gweithredu er mwyn i'r Cyngor wneud cynnydd mewn perthynas â'i Amcanion Llesiant, ei flaenoriaethau thematig a blaenoriaethau'r gwasanaeth.

[Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol 2021/22](#) - Mae'n ofynnol yn statudol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol adrodd yn flynyddol wrth y Cyngor ar berfformiad yr ystod gyfan o Wasanaethau Cymdeithasol a'r modd y cânt eu darparu, yn ogystal â chynlluniau ar gyfer eu gwella. Cafodd yr adroddiad hwn ei ystyried gan y Pwyllgor ym mis Hydref.

Canlyniadau

- Argymhellwyd i'r Cabinet fod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.
- bod Cadeirydd y Pwyllgor yn anfon llythyr at Lywodraeth Cymru yn ailadrodd pwysigrwydd cryfhau'r strwythurau sydd ar waith o ran plant sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref.

[Cynllun Busnes Drafft yr Adran Cymunedau 2020 - 2023](#) - Ym mis Mawrth bu'r Pwyllgor yn ystyried Cynllun Busnes Drafft yr Adran Cymunedau 2020 - 2023 a oedd yn manylu ar nodau, amcanion a blaenoriaethau'r adran yn ystod 2020-23. Rhoddodd hyn gyfle i'r Pwyllgor ystyried y blaenoriaethau a amlinellir ar gyfer yr adran ar gyfer y tair blynedd, a gwneud sylwadau yn eu cylch.

[Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau](#) - Yn ystod blwyddyn y cyngor gwneir sawl cais am eitemau ychwanegol gan aelodau'r Pwyllgor i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl o graffu. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am Gamau Gweithredu ac Atgyfeiriadau'n cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor sy'n darparu diweddariad ynghylch y cynnydd mewn perthynas â'r ceisiadau hyn.

2.4 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

[Adroddiadau Monitro'r Gyllideb](#) - Cafodd y Pwyllgor adroddiadau chwarterol ynghylch y cyllidebau refeniw a chyfalaf adrannol a chorfforaethol yn y cyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Hydref, mis Ionawr a mis Ebrill. Galluogai'r adroddiadau hyn yr aelodau i fonitro'r gwariant ym mhob maes a'r cynnydd a wnaed o ran unrhyw waith cyfalaf.

[Ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023-24 i 2025-26](#) - Yn ogystal â monitro'r gyllideb bresennol, ymgynghorwyd â'r Pwyllgor hefyd ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 i 2025/26. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r cynigion presennol i'r Pwyllgor ynghylch y Strategaeth Cyllideb Refeniw ar gyfer 2023/24, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2024/25 a 2025/26.

[Adroddiad Alldro Cyllideb Refeniw 2021/22](#) - Yn ei gyfarfod ym mis Hydref bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Alldro'r Gyllideb Refeniw ar gyfer 2021/22 a oedd yn nodi'r sefyllfa ariannol fel yr oedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Canlyniadau

Penderfynodd y Pwyllgor y dylid darparu datganiad sefyllfa ynghylch y swyddi gwaith cymdeithasol gwag.

2.5 Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Ranbarthol

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad uchod yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth; diben y strategaeth oedd ceisio cymeradwyaeth i strategaeth eiriolaeth oedolion ranbarthol newydd sydd wedi'i datblygu gyda rhanddeiliaid drwy'r Gweithgor Eiriolaeth. Nod y Strategaeth oedd llunio trefniadau comisiynu i fodloni'r gofynion i sicrhau bod eiriolaeth o ansawdd da ar gael yn hwylus ac yn deg i'r rhai sydd ei eisiau, neu ei angen, yn rhanbarth Gorllewin Cymru yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

2.6 Cynllun Rheoli Cyfiawnder Ieuenctid 2022/23

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad uchod yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ionawr 2023 a oedd yn amlinellu'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid a'r Tîm Cyfiawnder Ieuenctid a ddarparwyd o dan un strwythur rheoli, a oedd yn darparu dull cyfannol o ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid ledled Sir Gaerfyrddin. Roedd Adran 8 o'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid yn manylu ar berfformiad y bartneriaeth yn ystod 2021/22, a hefyd yn nodi'r blaenoriaethau a'r amcanion cynllunio gwelliannau am y flwyddyn i ddod, yn unol â'r egwyddorion 'plentyn yn gyntaf' cyffredinol ac ethos o welliant parhaus.

2.7 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2021/22

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad a nodwyd uchod yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Hydref, a oedd, yn unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor, yn rhoi trosolwg o weithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol.

2.8 Strategaeth Dementia Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Hydref. Roedd y Strategaeth hon wedi'i llunio mewn partneriaeth rhwng swyddogion y 3 Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd a phartneriaid yn y trydydd sector yn ogystal â phobl â dementia, eu gofalwyr, ac aelodau o'r teulu. Roedd yn cefnogi sawl amcan allweddol yn y Cynllun Corfforaethol, a'r Amcan Llesiant i 'gefnogi pobl hŷn er mwyn iddynt heneiddio'n dda a chadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth wneud hynny'.

2.9 Diweddariad Strategaeth Gofal Cartref

Ar gais y Pwyllgor, bu'n ystyried y diweddariad uchod yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2023. Roedd y diweddariad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r pwysau presennol ar ofal cartref, a'r effaith yr oedd hyn yn ei chael ar ryddhau cleifion o ysbytai. Bwriad yr adroddiad oedd rhoi sicrwydd bod cleifion yn cael cefnogaeth ddiogel i adael yr ysbyty ac roedd yn amlinellu'r pwysau a sut roedd Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymateb i'r pwysau hynny. Cafwyd diweddariad pellach yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2023.

Canlyniadau

Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariadau rheolaidd ynglŷn â gofal cartref a chynnydd gyda'r Bwrdd Iechyd. Cytunwyd y byddai diweddariadau'n cael eu cynnwys yn awtomatig mewn adroddiadau perfformiad a monitro data.

Cafwyd diweddariad ychwanegol ynghylch perfformiad yn y cyfarfod ym mis Ebrill.

2.10 Diweddariad ynghylch yr Adolygiad Gorchwyl Gorffen ar Unigrwydd yn Sir Gaerfyrddin

Yn ei gyfarfod ym mis Ebrill bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad diweddar ynghylch y cynnydd o ran y pedwar argymhelliad a ddeilliodd o'r Adolygiad Gorchwyl a Gorffen ar Unigrwydd yn Sir Gaerfyrddin yn ystod blwyddyn y cyngor 2018/19.

Canlyniadau

Gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad diweddar ar y gwaith atal ehangach, gan gynnwys y cynnydd a wnaed o ran ymarfer mapio'r holl wasanaethau ataliol yn Sir Gaerfyrddin ar gyfer dechrau 2024.

2.11 Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Oedolion a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)

Cafodd y Pwyllgor adroddiad ym mis Ebrill a oedd yn manylu ar y rôl, y swyddogaethau a'r gweithgareddau a wnaed gan yr Awdurdod mewn perthynas â Diogelu Oedolion a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.

2.12 Adroddiadau Ychwanegol a Gwybodaeth y Gofynnwyd Amdani

Yn ystod y flwyddyn, gofynnodd y Pwyllgor am adroddiadau ynghylch y meysydd canlynol i gael eu cynnwys yn y Blaengynllun Gwaith:-

- Diweddariad Gofal Cartref
- Diweddariad ynghylch yr Adolygiad Gorchwyl Gorffen ar Unigrwydd yn Sir Gaerfyrddin
- Diweddariad ynghylch yr Adolygiad Allanol ar yr achosion o TB yn Llwynhendy
(wrth aros am ganlyniad yr ymholiadau, dylid ystyried cyflwyno llythyr i Lywodraeth Cymru yn gofyn am gymorth ariannol ar gyfer y broblem barhaus o ran TB).

3. Gweithgarwch Craffu Arall

3.1 Gorchwyl a Gorffen

“Dechrau Egnïol ac Iach”

Yng nghyfarfod Blaengynllunio y Pwyllgor, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i nifer o awgrymiadau posibl a chytunodd i gynnal adolygiad gorchwyl a gorffen ynghylch gordewdra yn ystod plentyndod yn Sir Gaerfyrddin. Mae aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen fel a ganlyn:

- Y Cynghorydd Evans (Cadeirydd)
- Y Cynghorydd Hefin Jones
- Y Cynghorydd Meinir James
- Y Cynghorydd John Jenkins
- Y Cynghorydd Louvain Roberts
- Y Cynghorydd Rob Evans
- Y Cynghorydd Michelle Donoghue

Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ceisio cwblhau cwmpas y Grŵp i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2023.

3.2 Sesiynau Datblygu, Hyfforddiant a Briffio

Cynhaliwyd y sesiynau datblygu/seminarau canlynol i'r aelodau yn ystod 2022/23:-

- Cyflwyniad a throsolwg o sut i ddefnyddio Zoom
- Cyflwyniad a throsolwg o Mod.gov
- Côd Ymddygiad, Moeseg, Safonau, Cyfrifoldebau a Dyletswyddau Cyfreithiol
- Cyflwyniad i Gyngor Sir Gaerfyrddin a Lansio'r Rhaglen Sefydlu
- Materion Cyfansoddiadol a Pharatoi ar gyfer Cyfarfodydd
- Cyllid Llywodraeth Leol
- Rheoleiddwyr Allanol
- Y Broses Graffu yn Sir Gaerfyrddin
- Newid yn yr hinsawdd, Mesurau lliniaru a datgarboneiddio
- Cynllunio
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Llythrennedd Carbon
- Diogelwch personol a hunanofal, rheoli straen, gwytnwch personol, cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith
- Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Seiberddiogelwch
- Cyflwyniad i Farchnata a'r Cyfryngau
- Y Lluoedd Arfog
- Polisi Cwynion
- Trawsnewid i Wneud Cynnydd
- Cynlluniau Argyfwng
- Deddfwriaeth Gostwng Cyflymder
- Cwmnïau sy'n eiddo i'r Cyngor
- Cytundebau Cyfreithiol Adran 106

- Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor
- Adolygiad o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg
- Newidiadau Gwastraff yn y Dyfodol
- Hyfforddiant Cronfa Bensiwn Dyfed
- Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
- Ymholiadau gan Aelodau
- Gweithdy ynghylch y Strategaeth Gorfforaethol
- Sesiwn Briffio ynghylch Atgyweiriadau Tai
- Sesiwn Briffio ynghylch Ardaloedd Cadwraeth

Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd nifer o seminarau adrannol ynghylch y gyllideb.

Cafodd y Pwyllgor hefyd y diweddariadau/cyflwyniadau canlynol mewn cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn:-

- Sesiwn Blaengynllunio (Ionawr, Chwefror ac Ebrill)
- Defnyddio Sylweddau – ar y cyd â'r Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd (Mawrth)

3.2 Ymweliadau Safle

Cafodd y Pwyllgor ymweliad safle ym mis Tachwedd fel cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Integredig.

4. Heriau

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfnod heriol i'r Pwyllgor, yn dilyn newidiadau i'r broses adrodd. Cytunodd Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad i newid o'r drefn o gyfeirio adroddiadau'n systematig i broses cyn gwneud penderfyniadau. Roedd hyn wedi galluogi Craffu i ofyn am adroddiadau o Flaengynllun Gwaith y Cabinet ar unrhyw adeg. Yn anffodus, roedd nifer cyfyngedig o adroddiadau ar Flaengynllun Gwaith y Cabinet a oedd yn dod o dan faes gorchwyl y Pwyllgor Craffu - lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gan arwain at ganslo rhai cyfarfodydd.

Yn ogystal, cafodd y Pwyllgor nifer o achosion o beidio â chyflwyno adroddiadau:-

- Adroddiad Rheoli Perfformiad Chwarter 1 (Hydref)
- Adroddiad Blynyddol ynghylch Amcanion Llesiant (Hydref)
- Cynllun Busnes (Ionawr)
- Adroddiad Blynyddol ynghylch Amcanion Llesiant (Ionawr)
- Adroddiad Blynyddol - Diogelu (Mawrth)
- Strategaeth Gorfforaethol (Mawrth)

5. Gwaith yn y Dyfodol

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud cynnydd a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar bynciau lle bydd cyfraniadau'r Aelodau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth.

Bydd gwaith y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol yn cael ei ystyried fel rhan o sesiwn cynllunio'r Blaengynllun Gwaith. Bydd y Blaengynllun Gwaith yn parhau i gael ei fonitro yn ystod y flwyddyn, ynghyd â Blaengynllun Gwaith y Cabinet.

6. Cymorth i'r Swyddogaeth Graffu

Mae'r cymorth a roddir i swyddogaeth graffu Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn yr Is-adran Gweinyddiaeth a'r Gyfraith yn Adran y Prif Weithredwr.

Mae'r cymorth a roddir i'r swyddogaeth graffu yn cynnwys y canlynol:

- Llunio agendâu yn unol â'r Blaengynllun Gwaith a'u dosbarthu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu o leiaf 4 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod;
- Darparu cymorth a chyngor cyfansoddiadol i'r Pwyllgorau Craffu ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod materion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu;
- Rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau gweithredol ac anweithredol y Cyngor a'i swyddogion;
- Rheoli datblygiad strategol y swyddogaeth Graffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, a chyfarfodydd y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion gyda'r Bwrdd Gweithredol;
- Rhoi cyngor a chymorth yn y gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi;
- Rheoli cydlyniad a datblygiad blaengynlluniau gwaith y Pwyllgorau Craffu ar y cyd ag aelodau'r Pwyllgorau Craffu;
- Rheoli a chydlynu gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweinyddu grwpiau gorchwyl a gorffen ym maes craffu, cynorthwyo i lunio adroddiadau ar y cyd â'r grwpiau, a chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd;
- Cynorthwyo â rhaglen datblygu aelodau'r pwyllgorau craffu.

I gael rhagor o wybodaeth am graffu yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys blaengynlluniau gwaith, adroddiadau gorchwyl a gorffen ac adroddiadau blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: www.sirgar.llyw.cymru/craffu

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu anfonwch neges e-bost at craffu@sirgar.gov.uk

7. Presenoldeb

Caiff presenoldeb gan aelodau'r Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y flwyddyn 2022/23 ei ddangos yn y tabl isod. Cynhaliwyd cyfanswm o 4 cyfarfod rhwng 1 Mai 2022 a 30 Ebrill 2023.

Aelod y Pwyllgor Craffu	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd	%
Y Cynghorydd Bryan Davies	4	100
Y Cynghorydd Karen Davies	2	50
Y Cynghorydd Michelle Donoghue	4	100
Y Cynghorydd Alex Evans	4	100
Y Cynghorydd Hazel Evans	4	100
Y Cynghorydd Meinir James	3	75
Y Cynghorydd John Jenkins	1	25
Y Cynghorydd Hefin Jones	4	100
Y Cynghorydd Denise Owen	2	50
Y Cynghorydd Louvain Roberts	3	75
Y Cynghorydd Jacqueline Seward	0	0
Y Cynghorydd Fiona Walters	3	75
Y Cynghorydd Phil Warlow	4	100
Y Cynghorydd Janet Williams	4	100
Dirprwyon	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd	
Y Cynghorydd Dai Thomas	1	
Y Cynghorydd Jean Lewis	1	
Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd	
Y Cynghorydd Jane Tremlett	4	
Y Cynghorydd Alun Lenny	2	